**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**Ystafell Bwyllgor 6 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 15 Mehefin 2018 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Byron Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | M Durke | L S Gibbard |
| L R Jones | R V Smith | |

**Cynrychiolwyr Sefydliadau Cysylltiedig**
Mr A Dulley - Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu
Dr L Miskell - Prifysgol Abertawe
Mrs J Watkins - Cymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |
| Craig Griffiths | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - CNPT |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Mr W John ac Mr T McNulty

---

## 20 Croeso.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Mike Durke a Mr Craig Griffiths (pennaeth newydd y Gwasanaethau Cyfreithiol - CNPT) i'w cyfarfod cyntaf gyda'r pwyllgor.

## 21 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 22 Ethol Is-gadeiryddion ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018/2019

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorwyr R V Smith a P A Rees yn Is-gadeiryddion y pwyllgor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2018-2019.

## 23 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2018 fel cofnod cywir, yn amodol ar enw'r Cynghorydd A N

Woolcock, sy'n ymddangos ddwywaith, yn cael ei ddileu oddi ar y rhestr o aelodau sy'n bresennol.

**24 Adroddiad Archifydd y Sir.**

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2018.

Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol

Adroddodd ymhellach ar sgwrs yn y cyfarfod blaenorol ac amlinellodd strategaeth cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y gwasanaeth.

Cyfeiriodd at yr egwyddorion allweddol sy'n gefndir i'r strategaeth gan dargedu defnyddwyr newydd a chynyddu proffil y gwasanaeth.

Trafodwyd potensial y gwasanaeth i ddefnyddio Instagram a fformatau eraill ochr yn ochr â Twitter a Facebook fel offeryn defnyddiol ar gyfer y gwasanaeth.

Defnydd o'r gwasanaeth

Adroddodd am ddefnydd o'r gwasanaeth dros y chwarter gan gyfeirio at yr ystadegau ar gyfer 2016/17 a 2017/18 a manylodd ar y cefndir a'r rhesymeg y tu ôl i'r ystadegau.

Allgymorth y Gwasanaeth

Cyfeiriodd at gyhoeddi adroddiad blynyddol y Gwasanaeth Archifau ar-lein ar gyfer 2017/18.

Adroddodd am y gwaith parhaus wrth ddatblygu arddangosfa a ffilm i ddathlu canmlwyddiant ers sefydlu'r bleidlais i ferched. Gellir trefnu i weld yr arddangosfa mewn lleoliadau ar draws y ddau awdurdod maes o law.

Gwahoddodd aelodau o'r ddau awdurdod i amlygu a chyhoeddi argaeledd hyn ac arddangosfeydd eraill a gynhelir gan y gwasanaeth ar gyfer ysgolion, llyfrgelloedd, canolfanau cymunedol etc.

Amlinellwyd yr ymweliadau ysgol amrywiol a'r sgyrsiau â grwpiau allanol hefyd.

Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo argaeledd ymweliadau/arddangosfeydd ysgolion.

Awgrymodd y Cynghorydd Peter Rees y byddai'n codi'r mater o gyhoeddusrwydd ac argaeledd ymweliadau ysgol â'r swyddogion perthnasol yn yr awdurdod.

Cyfarfodydd Proffesiynol a Gweithio Mewn Partneriaeth

Adroddodd am y cyfarfodydd amrywiol y bu'r staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Manylodd ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â datblygu tocynnau i ddarllenwyr yr archifau ar draws y DU.

Casgliadau Archifau

Adroddodd am y rhestr o archifau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth yn ystod y chwarter.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.57 am

**Cadeirydd**